# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Plas Isaf**

**30-32 Llannerch Road West**
**Llandrillo-yn-Rhos**
**Bae Colwyn**
**LL28 4AS**

**Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**This report is also available in English**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

## 28 Chwefror 2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chartref Gofal Plas Isaf

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Oedolion heb ofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Elmtree Healthcare Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 32 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 19 Medi 2019 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Yn gweithio tuag ato. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn lleoliad dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb

Mae Plas Isaf wedi cael ei adnewyddu dros y blynyddoedd diwethaf ac mae wedi ei addurno i safon dda. Mae gan y cartref safonau hylendid a rheoli heintiau da. Mae'r timau rheoli a staff wedi ymdopi'n dda â heriau pandemig COVID-19. Mae'r rheolwyr wedi cyflenwi shifftiau eu hunain yn aml ac wedi bod yn weladwy ac yn gefnogol i'r tîm staff. Dywedodd gweithwyr cymorth gofal y siaradwyd â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu goruchwylio a'u hyfforddi'n dda. Mae pobl yn elwa ar dderbyn gofal gan dîm sefydlog o staff sy'n eu hadnabod yn dda ac sy'n gallu cynnig gofal a sicrwydd priodol. Mae angen i'r rheolwr ennill ei gymhwyster Lefel Pump a chofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC), yn unol â'r gofynion rheoliadol. Caiff hyn ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.

## Llesiant

Mae gan bobl lais ac maent yn gallu gwneud dewisiadau'n ddyddiol. Gwnaethom siarad â phreswylwyr a ddywedodd eu bod yn "*cael gofal da iawn".* Gwelwyd bod y gweithwyr cymorth gofal a'r rheolwr yn adnabod pobl yn dda ac yn chwerthin ac yn sgwrsio â nhw. Dywedodd y preswylwyr wrthym y gallent ddewis pryd i godi a phryd i fynd i'r gwely a beth i'w wneud gyda'u diwrnod. Gwnaethant ddweud bod y bwyd yn "*neis iawn"* a bod ganddynt ddigon o ddewis. Gwelsom fod gan bobl ddiod o fewn cyrraedd ac roeddent yn cael cynnig hylifau yn rheolaidd. Dywedodd pobl bod y staff yn garedig ac yn barchus, gwelsom fod y staff yn adnabod pobl wrth eu henwau. Roedd cynlluniau personol pobl yn dogfennu eu hoff bethau a'u cas bethau ac wedi'u hysgrifennu yn unol ag anghenion pobl.

Mae iechyd corfforol ac iechyd meddwl pobl yn cael eu monitro. Gwelsom fod camau monitro iechyd, er enghraifft cofnodi pwysau pobl, yn cael ei nodi'n rheolaidd mewn cofnodion gofal. Roedd pobl yn cael eu hatgyfeirio at weithwyr gofal iechyd proffesiynol mewn modd priodol ac amserol. Roedd adolygiadau meddygon teulu wedi'u dogfennu'n ofalus, ynghyd ag unrhyw ganlyniadau a chyfarwyddiadau.

Gwelsom fod pobl yn cael cynnig gweithgareddau a chyfleoedd i gymdeithasu. Roedd pobl yn eistedd yn y lolfa fawr yn gwylio'r teledu ac yn sgwrsio. Dangoswyd prosiectau celf a chrefft i ni y mae pobl wedi'u cwblhau eleni. Ceir lluniau o bobl yn mwynhau digwyddiadau fel y Nadolig a dydd San Ffolant. Dywedodd pobl wrthym eu bod yn cael cynnig pethau i'w gwneud yn ystod y dydd.

Mae pobl yn cael eu diogelu rhag esgeulustod a chamdriniaeth. Gwelsom fod dogfennau ar gyfer trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid ar waith ar gyfer pobl sy'n agored i niwed, roeddent yn briodol i sefyllfa'r person ac yn gyfredol. Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant ar ddiogelu a dywedwyd wrthym eu bod yn gwybod sut i gysylltu ag awdurdodau pe bai ganddynt unrhyw bryderon.

Mae'r amgylchedd yn addas i'r pwrpas. Mae'r cartref yn lân ac yn daclus, ac wedi'i addurno i safon dda. Gall pobl bersonoli eu hystafelloedd gyda phethau sydd o bwys iddynt er mwyn iddynt deimlo'n gartrefol.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn derbyn y gofal sydd ei angen arnynt. Gall pobl gael mynediad at gyngor gofal iechyd proffesiynol yn ôl yr angen. Mae cynlluniau personol pobl ar gyfrifiaduron, mae'r system yn amlygu pan fydd angen eu hadolygu a'u diweddaru. Gwelsom fod cynlluniau personol yn mynd i'r afael ag anghenion corfforol, meddyliol a chymdeithasol pobl. Maent yn fanwl ac yn canolbwyntio ar anghenion a'r hyn sydd orau gan unigolyn ac, o'r herwydd, maent yn rhoi cyfarwyddyd da i staff gofal. Gwelsom y staff yn rhoi gofal mewn modd ystyriol a sensitif. Gwnaethom nodi bod staff yn ymateb i glychau galw yn brydlon. Mae asesiadau risg ar waith i bobl ar gyfer pethau fel cwympiadau, ac mae asesiadau symudedd ar waith iddynt.

Mae gan bobl fynediad at fwyd a diod. Mae'r cartref yn cael cyflenwadau rheolaidd o archfarchnad a chaiff bwyd ei goginio o gynhwysion ffres. Gwelsom fod bwydlenni amrywiol yn cael eu cynnig i bobl, a darperir ar gyfer dietau arbennig. Cynigir diodydd i bobl yn rheolaidd. Dywedodd gweithwyr cymorth gofal wrthym eu bod yn rhoi blaenoriaeth i sicrhau bod preswylwyr wedi'u hydradu'n dda oherwydd ei fod yn bwysig i'w hiechyd.

Mae'r staff yn glynu wrth ganllawiau rheoli heintiau, a gwelsom eu bod yn gwisgo Cyfarpar Diogelu Personol fel y bo'n briodol. Mae nifer o gynhyrchion diheintio dwylo yn y cartref a digon o stoc ohonynt. Mae polisi COVID-19 ar waith sydd hefyd yn cwmpasu ymweliadau. Gall teuluoedd a ffrindiau ymweld â phobl yn ddiogel yn unol ag asesiad risg COVID-19 y cartref er mwyn sicrhau diogelwch pawb.

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae'r cartref wedi cael ei adnewyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae wedi'i addurno i safon dda. Mae'r cartref yn lân ac yn daclus, ac mae'r coridorau a'r diangfeydd tân yn ddi-rwystr. Mae'r ystafell feddyginiaeth yn lân iawn, yn daclus ac wedi'i threfnu'n dda, ac mae systemau diogelwch da ar waith yno. Mae'r lolfeydd o faint da a gall pobl ddewis bod yn gymdeithasol neu eistedd mewn man tawelach. Mae ystafelloedd pobl yn cydymffurfio â'r rheoliadau ac wedi'u personoli at ddant yr unigolyn. Mae'r ystafell golchi dillad yn addas i'w phwrpas; fodd bynnag, mae angen ystyried sut i atal dillad glân sy'n gadael yr ystafell rhag cymysgu â dillad budr sy'n mynd i mewn i'r ystafell, er mwyn sicrhau mesurau rheoli heintiau da.

Mae'r gwasanaeth yn ystyriol o iechyd a diogelwch. Mae offer yn cael eu gwirio a'u gwasanaethu yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr. Cynhelir gwiriadau tân yn rheolaidd a gwiriadau diogelwch eraill yn unol â'r rheoliadau i sicrhau diogelwch pobl.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y gwasanaeth weithdrefnau llywodraethu ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn esmwyth. Mae agweddau ar y gwasanaeth yn cael eu harchwilio'n rheolaidd i sicrhau bod pobl yn cael gwasanaeth o safon. Mae'r unigolyn cyfrifol wedi llunio adroddiadau, yn unol â gofynion y rheoliadau, i ddangos ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Fodd bynnag, oherwydd pandemig COVID-19, ni wnaeth yr unigolyn cyfrifol ymweld â'r cartref yn gorfforol a siarad â phobl a staff ynghylch yr adroddiad diwethaf a luniwyd. Mae angen cyflawni'r camau hyn er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau. Caiff hyn ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. Mae strwythur rheolaethol gwell ar waith gyda rheolwr a dirprwy reolwr yn eu lle. Mae'n ofynnol i'r rheolwr gwblhau'r cymhwyster Lefel Pump er mwyn cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru yn unol â gofynion y rheoliadau. Caiff hyn ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf hefyd.

Mae gweithdrefnau cyflogaeth yn foddhaol. O blith y ffeiliau personél y gwnaethom edrych arnynt gwelsom fod gwiriadau ar waith i sicrhau bod staff yn ddiogel i weithio gydag oedolion sy'n agored i niwed.

Nid yw Arolygiaeth Gofal Cymru wedi cael gwybod am unrhyw drafferthion ariannol mewn perthynas â'r gwasanaeth. Gall pobl gael mynediad at offer i gynorthwyo eu gofal. Mae stociau ffres o fwyd yn cael eu harchebu'n rheolaidd. Mae'r cartref mewn cyflwr da.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a byddwn yn ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y gallwn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 67 | Mae'n ofynnol i'r unigolyn cyfrifol benodi rheolwr sydd wedi'i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i reoli'r gwaith o ddarparu'r gwasanaeth o ddydd i ddydd. | Newydd |

**Dyddiad cyhoeddi** 10/05/2022